
Ymagwedd Ofcom at orfodi

Datganiad ar ddiwygio'r Canllawiau Gorfodi
Rheoleiddiol

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2022

Trosolwg

Ofcom yw'r rheoleidiwr annibynnol, yr awdurdod ar gyfer cystadleuaeth a'r gorfodwr dynodedig ar ran y gyfraith diogelu defnyddwyr ar gyfer sector cyfathrebiadau'r DU. Yn y rôl hon efallai y bydd angen i ni gymryd camau gorfodi er budd dinasyddion a defnyddwyr, a phan fo'n briodol i hyrwyddo cystadleuaeth.

Mae ein Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol yn nodi sut bydd Ofcom yn mynd ati i orfodi gofynion rheoleiddio a'r gyfraith diogelu defnyddwyr sy'n ymwneud â'r diwydiannau rydym yn gyfrifol amdanynt. Yn dilyn ein hymgyngoriad ar newidiadau arfaethedig i'r canllawiau ym mis Mai 2022, rydym wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i ddiweddarau a symleiddio'r canllawiau.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Ehangu'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol i gynnwys pwerau gorfodi newydd. Rydym wedi diwygio'r canllawiau i gynnwys gweithgarwch gorfodi Ofcom mewn tri maes newydd:

- rhwymedigaethau a osodir ar lwyfannau rhannu fideos o dan Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;
- gofynion a osodir ar weithredwyr gwasanaethau hanfodol ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018; a
- y fframwaith diwygiedig ar gyfer amddiffyn diogelwch a chadernid rhwydweithiau a gwasanaethau telathrebu yn y DU fel y nodir yn Neddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021.

Ailstrwythuro'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol i'w gwneud yn haws eu dilyn. Rydym wedi symud llawer o'r deunydd a oedd wedi'i gynnwys yn flaenorol mewn troednodiadau technegol a chyfreithiol ategol i atodiadau sy'n benodol i'r drefn, er mwyn ei gwneud yn haws deall sut mae ystod o bwerau gorfodi gwahanol Ofcom yn cael eu defnyddio. Mae'r adran ar setliad wedi'i symleiddio hefyd.

Diweddarau ac egluro testun y Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol i adlewyrchu ein profiad o gynnal ymchwiliadau yn ymarferol. Mae ehangder ein dyletswyddau rheoleiddio yn golygu bod y dull gweithredu priodol yn gallu amrywio o achos i achos. Rydym wedi diwygio'r canllawiau gyda'r bwriad o wneud y canlynol:

- cydnabod lle mae'r ystod ehangach o bwerau rheoleiddio yn gosod rhwymedigaethau gweithdrefnol gwahanol ar Ofcom;
- adlewyrchu ein profiad o ymchwiliadau gorfodi o ddydd i ddydd; a
- dileu ailadrodd ac egluro'r camau trefniadol rydym yn bwriadu eu dilyn.

Cynnwys gwybodaeth am atebolrwydd sifil am dorri gofynion rheoleiddiol. Mewn rhai amgylchiadau, y mae unigolion sy'n cael colled neu ddifrod o ganlyniad i dorri gofynion rheoleiddiol a osodwyd gan Ofcom yn gallu dwyn achos yn uniongyrchol yn erbyn y cwmni perthnasol, ond yn gyntaf rhaid iddynt gael caniatâd Ofcom i wneud hynny. Mae'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol yn cynnwys esboniad o'r broses ar gyfer gwneud cais am ganiatâd a sut bydd Ofcom yn delio â cheisiadau o'r fath.